# CREU'R SBARDUN
## CYLCHLYTHYR CREU CONWY
## EBRILL 2025

DIWYLLIANT CONWY CULTURE

## Croeso i Gylchlythyr Creu Conwy Ebrill 2025

**Drwy'r adain Diwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth a chyflwyno Creu Conwy – Creu'r Sbardun, Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, mae llawer iawn o weithgareddau a arweinir gan ddiwylliant wedi bod ar y gweill dros y 6 mis diwethaf. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) a chydweithio â sefydliadau partner. Mae'r sylw wedi parhau ar gefnogi lles cymunedol, meithrin gallu ar gyfer sector diwylliannol mwy cysylltiedig a rhaglenni diwylliannol sy'n cefnogi canol ein trefi.**

### LLENWI – Lansio Llwybr Celf

Mae murluniau mawr wedi eu gosod yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst, gan greu llwybr o amgylch y sir fel rhan o brosiect LLENWI. Trwy brosiect LLENWI (sy'n cyfleu'r syniad o feddiannu gofod), mae waliau gwag wedi cael eu trawsnewid yn y gobaith o greu canolbwyntiau i gymunedau ac ymwelwyr.



Logo LLENWI

Cafodd yr Artist digidol a 3d lleol, Livi Wilmore, a'r artist arwyddion traddodiadol Tomos Jones o Momo Signs eu comisiynu i gydweithio â thros 250 o bobl o bob cwr o'r sir i lunio cysyniadau sy'n unigryw i bob cymuned. Daw'r murluniau sydd wedi eu paentio â llaw, yn fyw trwy godau QR sy'n agor byd 'realiti estynedig' digidol wedi ei ysbrydoli gan gyfraniadau'r gymuned.

*Meddai Livi, 'Cawsom fardd arbennig sef Dr Rhys Trimble i weithio gyda ni a'r bobl yn y gymuned i greu cerddi sydd wedi'u hysbrydoli gan y Gymraeg ac atgofion arbennig pobl sy'n gysylltiedig â phob ardal. Fe geision ni ganfod pethau mwy hynod ac ar hap gan bobl ac o ganlyniad mae pob gosodiad yn hollol wahanol'.*


Murlun yn cael ei beintio ym Mae Colwyn

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, sydd wedi'i ariannu gan gynllun Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru, ewch i diwylliantconwy.com


Cod QR ym murlun Conwy yn cael ei sganio

### Sicrhau Cyllid ar Gyfer Prosiect Celf Newydd!

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dyfarnu grant o £46,000 i Wasanaeth Diwylliant Conwy ar gyfer Cymunedau Creadigol – sef prosiect newydd a fydd yn cynnig cyfleoedd celfyddydau cymunedol cynhwysol ar gyfer ystod o oedrannau. Bydd y cyfranogwyr yn cael cyfle i archwilio eu sgiliau creadigol mewn lleoliadau ar sail arddull artist preswyl ledled y sir.

Bydd pump artist yn cael eu comisiynu drwy'r prosiect a byddwn yn ceisio penodi cydlynydd cymorth prosiect llawrydd sydd â phrofiad o brosiectau tebyg. Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at creu@conwy.gov.uk

## Amdani! Conwy – Dathlu Gwirfoddoli

Mae cyllid 'Spirit of 2012' i Amdani! Conwy bellach wedi dod i ben. Roedd y prosiect, a oedd yn bartneriaeth gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol Conwy (CGGC) a Chelfyddydau Anabledd Cymru, yn arloesi gyda dulliau cynhwysol o wirfoddoli. Cafodd cyfanswm o 80 o wirfoddolwyr eu recriwtio dros y ddwy flynedd ac roedd yr adborth gan croesawyr a gwirfoddolwyr yn hynod o gadarnhaol.

*'Mae gwirfoddoli'n wych. Rydych yn dysgu llawer o bethau ac mae'n cynnal eich cymhelliant o hyd. Mae holl staff Amdani yn dda oherwydd dydyn nhw byth yn eich siomi nac yn eich gadael chi allan – dwi'n gwybod ei bod hi'n anodd am wahanol resymau ond un o rannau pwysicaf eich bywyd yw annibyniaeth.' Gwirfoddolwr Amdani! Conwy*

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect yn cael eu defnyddio ac mae prosiectau gwirfoddoli cynhwysol yn cael eu harchwilio gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Conwy ar gyfer y dyfodol. Hoffem ddiolch i'r holl wirfoddolwyr, y sefydliadau gwesteio a'n partneriaid am eu holl gyfraniadau i'r prosiect. Gellir gweld ffilm ddylanwadol y prosiect yma yn y Gymraeg, Saesneg a BSL.

## Taith: Siwrneiau Creadigol Tuag at Les - Lansio Adnodd

Rydym yn gyffrous i lansio pecyn adnoddau Taith, sydd wedi'i ddatblygu i gefnogi lles meddwl pobl trwy weithgareddau hygyrch ac awgrymiadau creadigol! Mae'r prosiect wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r Tîm Lles Meddyliol a Mind Conwy. Trwy gyfres o sesiynau grŵp dan arweiniad artistiaid mae'r cyfranogwyr wedi cael cyfle i archwilio sut y gall bod yn greadigol gefnogi eu lles. Mae'r hyn a ddysgodd y grŵp wedi cyfrannu at ddatblygiad yr adnodd, a gellir ei lawrlwytho o yma. Mae copïau wedi'u hargraffu ar gael trwy ein llyfrgelloedd. Mae'r prosiect, sydd hefyd wedi cefnogi hyfforddiant Cymorth Cyntaf y Celfyddydau mewn Iechyd ac Iechyd Meddwl i artistiaid lleol, wedi'i ariannu drwy gronfa Loteri Celfyddydau, Iechyd a Lles Cyngor Celfyddydau Cymru.



Gwirfoddoli Amdani! Conwy yn llyfrgell Llandudno




Clawr blaen pecynnau Prosiect Taith

## Timau Tref Creu Conwy – Cyflwyno Diwylliant i'w Cymunedau

Trwy brosiect Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Creu Conwy, mae Timau Tref sy'n cynnwys grwpiau a sefydliadau lleol wedi cael eu cefnogi i ddod at ei gilydd i ddatblygu a chyflawni prosiectau sy'n adlewyrchu diddordeb ac anghenion lleol. Yn ogystal â chyflwyno rhaglen o weithgareddau dylanwadol, bu cyfle i weithio ar y cyd.

'Mae dull gweithredu traws-weithio Creu Conwy wedi meithrin perthnasoedd hirhoedlog rhwng sefydliadau a busnesau nad ydynt erioed wedi cydweithio o'r blaen. Bellach mae gennym ni syniadau gwell am gryfderau, adnoddau ac arbenigedd ein gilydd'. Aelod o Dîm Tref


Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Chwefror i ddod ag aelodau Tîm Tref o bob rhan o'r sir at ei gilydd i rannu dysgu a dathlu cyflawniadau. Mae'r Timau Tref yn parhau i gyfarfod ac mae dulliau gweithredu a chynlluniau'r dyfodol yn cael eu harchwilio.

Mae manylion llawn yr ystod amrywiol o brosiectau Timau Tref sy'n cynnwys ailddehongli hanes lleol, gosod arddangosfeydd hynod lwyddiannus, dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig trwy berfformiadau ac ystod o ddigwyddiadau, i'w gweld yma: Diwylliant Conwy | Timau Tref Creu Conwy



Yr arddangosfa Yarn Hiraf uchod / Gwyl Dafydd ap Siencyn yn Llanrwst isod






Chwith: Plac porffor ar gyfer Ethel May Hovey

## Gigs y Gaeaf

Mae Gigs y Gaeaf wedi cyflwyno rhaglen eclectig o ddigwyddiadau ar draws y sir! Daeth dros 700 o bobl allan ar nosweithiau oer a thywyll i fwynhau cerddoriaeth fyw yn eu cymunedau. Roedd y perfformiadau'n cynnwys:

- Cerddoriaeth a dawns werin Gymreig gyda'r band VRï, dan ofal y Dance Collective yn Eglwys y Santes Fair ym Metws y Coed.
- Band Al Lewis gyda chefnogaeth Alis Glyn yn Eglwys y Santes Fair yng Nghonwy wedi'i gynnal gan Bwyllgor Aberconwy.
- Gig i'r teulu cyfan, gyda chyfleoedd i artistiaid lleol berfformio, wedi'i threfnu gan y Motorsport Lounge yn Llandudno.
- Cynhaliodd Neuadd Gymunedol Llanfairfechan noson Affro-Lladin gyda Banda Bacana a pherfformiad llafar gyda Martin Dawes.
- Cynhaliodd Underground Artist Movement ddigwyddiad Grime yn eu lleoliad ym Mae Colwyn, gyda Mr Phormula ac artistiaid eraill yn perfformio.
- Bu Beacons Cymru yn gweithio gyda'r gymuned yn Llanfairtalhaiarn i gynnal noson o dalent ifanc Cymreig gyda TewTewTennau a Bau Cat.

'Diolch am y cyfle i gael bod yn rhan o Gigs y Gaeaf, roedd ein digwyddiad Twmpath yn llwyddiant enfawr. Roedd y grŵp Dawns ar gyfer Parkinson's wrth eu bodd yn perfformio gyda VRï a braint oedd cael gwneud hynny yng ngofod anhygoel Eglwys y Santes ym Metws y Coed'. Angharad Harrop, Dance Collective

Hoffem ddiolch i'n holl bartneriaid, Digwyddiadau Conwy a gwirfoddolwyr Amdani! Conwy a gefnogodd y digwyddiadau. Dilynwch y ddolen gyswllt hon i weld ffilm fer sy'n dangos ychydig o'r digwyddiadau gwych a gynhaliwyd.



VRï, a gynhelir gan y Dance Collective ym Metws y Coed



Al Lewis Band yng Nghonwy.
Credyd Llun: HARRI CENNIN ROBERTS PWYLLGOR CYMRAEG ABERCONWY

## Croeso Cynnes Llyfrgelloedd

Mae llyfrgelloedd yn dal i gynnig sesiynau Croeso Cynnes, lle mae gweithgareddau a lluniaeth ar gael i unrhyw un sydd am dreulio amser mewn lle cynnes a chyfeillgar. Mae'r sesiynau hyn yn dod â gwirfoddolwyr a defnyddwyr llyfrgelloedd o bob oed at ei gilydd ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo llyfrgelloedd fel mannau diogel i bobl gael mynediad at gymorth digidol a chyflogaeth ynghyd â gwybodaeth gyffredinol. I ganfod mwy ewch i wefan: https://llyfrgelloeddconwy.com/support-libraries/croeso-cynnes

Yn ogystal â sesiynau rheolaidd sy'n hybu darllen i bawb, cynhaliwyd sesiynau newyddiadurol creadigol sy'n deall dementia i hyrwyddo'r casgliad Darllen yn Well ar gyfer Dementia, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.



Croeso Cynnes yn llyfrgell Llanfairfechan

## Cymerwch Ran 2025

Cynhaliwyd Cymerwch Ran, dathliad anhygoel Venue Cymru o bopeth celfyddydol a diwylliannol i blant, teuluoedd a phobl ifanc ym mis Ionawr. Croesawodd tîm y Llyfrgell bron i 700 o bobl i'w stondin a chafwyd llawer o hwyl gyda theatr bypedau, ysgrifennu straeon, gwneud baneri a chreu celf ffelt hardd gyda'r artist Gill Prendergast. Cynhaliwyd sesiynau Darllen ar y Cyd ar gyfer oedolion yn yr ardal ymlacio hefyd.



Croeso Cynnes yn llyfrgell Llanrwst

## Beyond the African Institute – Gweithgaredd Gwasanaeth Amgueddfa Conwy

Roedd y prosiect Beyond the African Institute yn archwilio'r cyswllt rhyfeddol rhwng Tŷ Congo / Sefydliad Affricanaidd Bae Colwyn a Nelson Mandela. Comisiynwyd yr artist o Camerŵn, Mfikela Jean Samuel, i greu gwaith celf.Mynychodd disgyblion o ysgolion lleol sesiynau gyda Mfikela i greu murluniau wedi'u hysbrydoli gan y paentiad a dysgu am y stori leol bwysig hon am Hanes Pobl Dduon.

*Dywedodd y Swyddog Datblygu Amgueddfeydd, Rachel Evans, 'Mae'r prosiect hwn yn pwysleisio pa mor bwysig yw darparu cyfleoedd ar gyfer addysg gwrth-hiliaeth lle mae pob llais a hanes yn cael ei glywed a'i werthfawrogi. Mae hyn yn ehangu ein dealltwriaeth o'r tapestri bywiog sy'n rhan o'n cymunedau ac yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030.' Bydd gwaith celf Mfikela yn cael ei osod yn Llyfrgell Bae Colwyn. Ariannwyd y prosiect trwy'r Gymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol.*



Mfikela Jean Samuel yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy



Mfikela Jean Samuel yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy

## NEWYDDION - Oriel Colwyn

Ym mis Rhagfyr gosodwyd arddangosfa newydd o 'berlau' nas gwelwyd erioed o'r blaen o archif personol y diweddar Terry Jones o Monty Python. Cafodd yr arddangosfa 'The Life of Terry' ei threfnu a'i churadu gan Paul Sampson. Mae wedi ennyn diddordeb mawr, a llawer o bobl wedi teithio ar draws y wlad i ymweld a chefnogi ymgyrch 'Python on The Prom' i godi cerflun o Terry ar y promenâd. Mae adborth gan gaffis, siopau a gwestai lleol yn cadarnhau bod yr arddangosfa wedi cael effaith economaidd gadarnhaol yn y dref.

Ceir manylion llawn am arddangosfeydd y gorffennol a'r dyfodol a digwyddiadau siaradwyr yn www.orielcolwyn.org



Delwedd o Archif Terry Jones

## Gŵyl 'Inbetweener' Northern Eye

Cynhaliwyd gŵyl ffotograffiaeth fechan Northern Eye ym mis Tachwedd. Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn fel arfer ond ar ôl i ŵyl 'Eye Festival' Aberystwyth gael ei gohirio, penderfynodd tîm Oriel Colwyn gynnal gŵyl 'INBETWEENER' ac unwaith eto trefnwyd detholiad o'r radd flaenaf o siaradwyr a gwesteion ar gyfer penwythnos llawn ffotograffiaeth, y tro hwn ar y prom ym Mae Colwyn ym Mhorth Eirias.

Bydd gŵyl eilflwydd arferol Northern Eye yn dychwelyd i Theatr Colwyn ar 4 a 5 Hydref eleni.Mae'r ffotograffydd byd-enwog Martin Parr wedi'i gyhoeddi fel un o'r siaradwyr gwadd eleni, gyda mwy o gyhoeddiadau yn dod yn fuan. Mae Tocynnau Cynnar ar werth a cheir manylion llawn yn www.northerneyefestival.co.uk





Poster arddangosfa The Northern Eye yr 'Inbetweener'

## Archif Ddarlledu Genedlaethol yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy

Cynhaliodd y Gwasanaeth Archifau arddangosfa yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy gan yr artist Lydia Silver. Ysbrydolwyd y gwaith gan gasgliad clyweled Archif Ddarlledu Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae casgliad clyweled digidol cyfan Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gael i'w gweld mewn terfynellau Cornel Clipiau yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy a Llyfrgell Llanrwst



Gwaith celf yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy gan Lydia Silver

## Digwyddiadau Conwy yn Cefnogi Cymunedau

Trwy brosiect Creu Conwy UKSPF, mae Digwyddiadau Conwy wedi gallu buddsoddi mewn offer digwyddiadau symudol sydd bellach ar gael i'w llogi i'r gymuned. Mae'r offer yn cynnwys lifft llwyfan symudol, i alluogi mynediad i gadeiriau olwyn, llwyfan trelar, offer PA a llawer mwy.

Bydd hyn yn galluogi cymunedau i gynnal digwyddiadau o ansawdd uchel sy'n fwy cynhwysol a hygyrch. Mae'r offer wedi cael eu profi'n llwyddiannus a gellir cael mynediad atynt ar-lein trwy: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - offer Digwyddiadau neu am fanylion cysylltwch â: digwyddiadau@conwy.gov.uk

## Archifau ar Daith

Ar gyfer wythnos Archwiliwch eich Archif ym mis Tachwedd, aeth y tîm ar daith gan ymweld â phob un o lyfrgelloedd cymunedol Conwy gyda sioe deithiol wedi'i dylunio i gyflwyno casgliadau archif a gwasanaethau i ddefnyddwyr newydd.



Terfynellau Clip Corner yn llyfrgell Llanrwst




Offer digwyddiadau symudol Venue Cymru yn Llandudno




Aelod o staff archifau mewn digwyddiad allgymorth

**Ariennir Creu Conwy gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.**
**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

DIWYLLIANT CONWY CULTURE

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Diwylliant Conwy Culture | Diwylliant Conwy | 01492 576139 | creu@conwy.gov.uk

**www.diwylliantconwy.com**